# Arwyddion traffig

## Arwyddion sy'n gorchymyn

**Arwyddion gwahardd yw arwyddion o fewn cylchoedd coch gan mwyaf. Mae platiau o dan arwyddion yn esbonio eu neges.**



Mynedfa i barth 20 mya



Diwedd parth 20 mya



Cyflymder uchaf


Cyfyngiad cyflymder cenedlaethol mewn grym



Rheolwr croesfan ysgol



Stopiwch ac ildiwch



Ildiwch i draffig ar brif ffordd






Arwyddion dros dro sy'n cael eu defnyddio â llaw


Dim mynediad i gerbydau



Dim cerbydau heblaw am feiciau sy'n cael eu gwthio


Dim seiclo


Dim cerbydau modur


Dim bysiau (â mwy nag 8 sedd teithiwr)


Dim pasio


Dim carafanau'n cael eu tynnu


Dim cerbydau'n cario ffrwydron



Dim cerbyd na chyfuniad o gerbydau dros yr hyd a nodir



Dim cerbydau dros yr uchder a nodir



Dim cerbydau dros y lled a nodir



Ildiwch i gerbydau'n dod o'r cyfeiriad arall


Dim tro i'r dde


Dim tro i'r chwith


Dim troeon pedol



Dim cerbydau nwyddau dros y pwysau gros uchaf a nodir (mewn tunelli metrig) ac eithrio llwytho a dadlwytho

Nodwch: Er bod *Rheolau'r Ffordd Fawr* yn dangos nifer o'r arwyddion sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin, gallwch gael eglurhad cynhwysfawr o'n system arwyddion yn llyfryn yr Adran, *Know Your Traffic Signs*, sydd ar werth gan lyfrwerthwyr. Mae'r llyfryn hefyd yn darlunio ac yn egluro mwyafrif llethol yr arwyddion y mae defnyddwyr y ffyrdd yn debygol o ddod ar eu traws. Nid yw'r holl arwyddion a welir yn *Rheolau'r Ffordd Fawr* ar yr un raddfa. Yng Nghymru, mae fersiynau dwyieithog o rai arwyddion yn cael eu defnyddio, yn cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg o enwau lleoedd. Gellir gweld rhai arwyddion o fathau hŷn ar y ffyrdd o hyd.



Dim cerbydau dros y pwysau gros uchaf a nodir (mewn tunelli metrig)



Parcio wedi'i gyfyngu i ddeiliaid trwydded



Dim stopio yn ystod y cyfnod a nodir heblaw am fysiau



Dim stopio yn ystod yr amseroedd a nodir ac eithrio cyhyd ag y bydd ei angen i godi neu ollwng teithwyr


Dim aros


Dim stopio (Clirffordd)

**Mae arwyddion ar gylchoedd glas heb ymylon coch yn rhoi cyfarwyddyd cadarnhaol gan mwyaf.**


Ymlaen yn unig


Trowch i'r chwith ymhellach ymlaen (i'r dde os troir y symbol o amgylch)


Trowch i'r chwith (i'r dde os troir y symbol o amgylch)


Cadwch i'r chwith (i'r dde os troir y symbol o amgylch)


Gall cerbydau fynd heibio ar y ddwy ochr i gyrraedd yr un man


Cylchfan fach (cylchrediad cylchfan - ildiwch i gerbydau o'r dde)


Llwybr i'w ddefnyddio gan feiciau yn unig


Llwybr ar wahân i feiciau a cherddwyr



Cyflymder isaf



Diwedd y cyflymder isaf



Bysiau a beiciau yn unig



Tramiau yn unig



Man croesi i gerddwyr dros dramffordd


Traffig unffordd (nodwch: cymharwch â'r arwydd crwn 'Ymlaen yn unig')


Lôn fysiau a beiciau gyda'r llif


Lôn fysiau yn erbyn y llif


Lôn feiciau gyda'r llif